Tribiwnlys Addysg Cymru | Education Tribunal for Wales

Canllaw i dystion ar dreuliau

Os ydych chi'n dyst, gallwch hawlio costau teithio y mae'n rhaid i chi eu talu a swm penodol am golli enillion. Byddwn yn talu swm sy'n hafal i'r swm y mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol yn ei dalu am wasanaeth rheithgor.

Mae gennym yr hawl i wirio unrhyw hawliadau am golli enillion gyda'ch cyflogwr.

Bydd ein clerc yn rhoi ffurflen hawlio i chi yn y gwrandawiad. Os na dderbyniwch un, ac rydych eisiau hawlio am eich treuliau, gofynnwch am ffurflen ar ôl y gwrandawiad.

Dylech ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd. **Nid** ydym yn talu prisiau tacsi oni bai bod **amgylchiadau eithriadol**.

Y swm a dalwn am golli enillion yw:	• £32.47 am hyd at bedair awr o absenoldeb o'r gwaith; a • £64.95 am dros bedair awr o absenoldeb o'r gwaith.

Gallwch hawlio:	• Prisiau trên dosbarth safonol; • Prisiau bws neu dram; a • Milltiroedd (a delir ar 31.4 ceiniog y filltir) os ydych chi'n teithio mewn car.

Ni allwch hawlio am:	• Teithio tramor; • Parcio'ch car; • Costau doll; neu • Bwyd neu ddiodydd.

Mae'n rhaid i chi:	• anfon eich cais cyn pen **30 diwrnod** ar ôl dyddiad y gwrandawiad; • gwneud yn siŵr eich bod chi'n llenwi'r holl adrannau angenrheidiol i warantu ein bod ni'n talu'ch treuliau'n gyflym; a • **anfon tocynnau a derbynebau gyda'ch ffurflen hawlio. Ni fydd y tribiwnlys yn talu treuliau heb y rhain.**

Byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i dalu'ch treuliau cyn gynted â phosibl.